Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn

Ystad Ddiwydiannol Maerdy
Heol Maerdy
Glynrhedynog
CF43 4AB

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn Y Forwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 170 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 117 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 27.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 38.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 42.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2009 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 21/01/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/01/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn yn gymuned gefnogol a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais cadarn ar gynnydd a lles disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, gyda’r nod o sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu cyfoethog mewn amgylcheddau dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu’n fwriadus at ymddygiad ardderchog ac agweddau cadarnhaol at ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae gweledigaeth bwrpasol y pennaeth, sy’n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan y staff a’r gymuned ehangach, yn cefnogi trefniadau gwella’r ysgol yn llwyddiannus, ac mae’r cyfrifoldebau arwain yn sefydledig ac yn gynaledig ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n fwriadus. Maent yn fodelau iaith effeithiol ac yn canolbwyntio’n drwyadl ar hyrwyddo gofal a dysgu’r disgyblion. Mae hyn yn cefnogi cynnydd da ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion o’u mannau cychwyn. Mae’r staff yn cydweithio’n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda, sy’n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n ysgogi disgyblion yn bwrpasol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd buddiol. Mae ansawdd addysgu’r athrawon yn gadarn ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu. Er hyn, nid yw adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn y dysgu yn ddigon cyson. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau’n herio disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Mae staff yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a’u teimladau’n llwyddiannus, sy’n hybu datblygiad eu parch at eraill yn ddeallus. Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy’n cyfrannu’n gryf at eu hymwybyddiaeth o’u cynefin a’u diwylliant.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cryfhau adborth i gefnogi’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion

A2 Darparu profiadau dysgu, ar draws y cwricwlwm, sy’n herio disgyblion i gymhwyso’u medrau yn effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu hapus, gefnogol a chynhwysol. Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir a bwriadus ar gyfer yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni’i hun, y staff a’r disgyblion. Mae hi’n annog disgyblion i gofleidio hapusrwydd ac i anelu at gyflawni eu dyheadau. Mae hi’n cydweithio’n ddiwyd â’r tîm arwain, y staff a’r llywodraethwyr i ddarparu profiadau dysgu difyr sy’n berthnasol i ddisgyblion. Trwy hyn, mae arweinwyr yn arddel gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus gyda phwyslais clir ar ddarparu profiadau dysgu diddorol a blaenoriaethu lles ar gyfer holl gymuned yr ysgol.

Mae’r pennaeth yn arweinydd synhwyrol a chydwybodol. Mae hi wedi sefydlu strwythurau arwain cadarn, sefydlog a chynaledig ar draws yr ysgol ac mae gan y rhan fwyaf o staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth sicr o’u rolau a chyfrifoldebau. Maent yn ystyried ystod eang o dystiolaeth sy’n eu galluogi i adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Maent yn gosod blaenoriaethau gwella ystyrlon sy’n mynd i’r afael â’r meysydd hyn i’w gwella  yn bwrpasol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy’n hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff yn effeithiol. Maent yn rhannu arferion cadarn a pherthnasol yn ddeallus. Mae hyn yn cyfrannu’n bwrpasol at ethos yr ysgol fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, medrau a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau rheolaidd i drafod dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth yng Nghymru, adborth ac asesu, a threialu egwyddorion newydd i gefnogi eu dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd effeithiol â rhieni. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a’r gymuned yn drwyadl. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant a chyfoethogi eu hymgysylltiad â’r ysgol. Er enghraifft, mae staff yn trefnu sesiynau darllen, gweithgareddau gwyddoniaeth ymarferol a gweithdai ar sut i fwyta’n iach. Mae hyn yn cefnogi rhieni i ddatblygu eu dealltwriaeth o waith, lles a chynnydd eu plant yn bwrpasol.

Mae athrawon yn esbonio tasgau’n glir ac yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ddeallus. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder bwriadus i wersi ac yn defnyddio ystod dda o adnoddau i gefnogi dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon a chymorthyddion yn gwybod pryd i annog dyfalbarhad ymhlith disgyblion a phryd i gynnig cefnogaeth ychwanegol. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu dysgu ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da gan ystyried eu mannau cychwyn. Er hyn, nid yw adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn y dysgu yn ddigon cyson.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ynglŷn â datblygiad medrau Cymraeg a Saesneg disgyblion. Maent yn annog disgyblion i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at siarad Cymraeg yn dda ac maent yn ymdrechu'n frwdfrydig wrth siarad mewn gwahanol gyd-destunau. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith.

Mae athrawon yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Maent yn arbrofi'n hyderus gyda gwneud marciau. Wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau'n fwriadus, gan ddangos ymwybyddiaeth fuddiol o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu medrau darllen da ac mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol yn y ddwy iaith mewn ystod o ffurfiau defnyddiol.

Mae addysgu'r athrawon a'r cymorthyddion yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd a'u cymwyseddau digidol. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac amrywiol, yn cynnig cyfleoedd digidol amlgyfrwng, ac yn darparu adnoddau mathemateg defnyddiol i'w disgyblion. Mae'r dulliau hyn yn meithrin hyder a hyrwyddo annibyniaeth ymysg y disgyblion, sy'n cefnogi eu dysgu yn bwrpasol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn trafod hanes Cwm Rhondda ac effaith y Cymry ar faterion byd eang sy'n cyfrannu at godi eu dyheadau ac ehangu eu gorwelion. Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn raddol dros amser yn briodol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau'n herio disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd, amrywiaeth, a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch at eraill. Yn ogystal, maent yn datblygu eu hymwybyddiaeth o hunaniaethau yn llwyddiannus ac mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig, ac yn meithrin perthnasoedd teyrngar â staff. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon a chymorthyddion ac yn ymfalchïo yn eu cynnydd. Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn rhagorol ac maent yn cyfrannu'n ystyrlon i drafodaethau dosbarth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael ei chydlynu'n dda ac yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn llwyddiannus. Mae'r staff yn gweithio'n bwrpasol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn

cefnogi disgyblion yn fwriadus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd o’u mannau cychwyn.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu difyr ac ysgogol tu mewn a thu allan sy’n cymell llwyddiannau a brwdfrydedd ymysg disgyblion yn effeithiol. Mae ystod synhwyrol o fannau tawel i’w defnyddio gan ddisgyblion, pan fo angen, gan gynnwys ardaloedd ymyrraeth gwerthfawr a’r ‘Cwtsh’. Maent yn cael eu defnyddio’n ddoeth gan staff i gefnogi lles a chynnydd disgyblion yn dda.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/03/2026